# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Gwella Ysgolion |
| **SWYDD:** | Partner Gwella Ysgolion |
| **GRADD Y SWYDD:** | Soulbury 18 i 21 (ynghyd â 3 SPA - 24) |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Grŵp – Gwella Ysgolion |

**DIBEN Y SWYDD:**

Sicrhau deilliannau gwell i'r holl ddysgwyr drwy ddarparu her gadarn, adeiladol a chymorth effeithiol o ansawdd uchel, sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso cydweithredu rhwng ysgolion i godi safonau.

- Cynorthwyo a herio trefniadau Cydweithredol rhwng ysgolion i bennu eu ffocws gwella ysgolion blynyddol sy'n seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth.
- Sicrhau bod trefniadau cydweithredol rhwng ysgolion wedi ystyried a gwerthuso'r tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol wrth bennu eu ffocws blynyddol ar wella ysgolion.
- Sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cael ei hysbysu'n llawn am y meysydd ffocws ar gyfer gwella ysgolion a gynhelir gan drefniadau Cydweithredol yn flynyddol a pham y dewiswyd y rhain.
- Darparu adroddiad gwrthrychol o gynnydd tymhorol a blynyddol y trefniadau Cydweithredol rhwng ysgolion, sy'n seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol a thrafodaethau gydag amrywiaeth o randdeiliaid sy'n gysylltiedig â'r trefniant cydweithredol.
- Cyflwyno, datblygu ac ymgorffori strategaeth hyfforddi sy'n sicrhau dull hunanwella sy'n galluogi trefniadau Cydweithredol i ddatblygu ac aeddfedu dros amser.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Gweithio mewn partneriaeth gyfartal â phenaethiaid mewn trefniant Cydweithredol, gan bennu'r ffocws gwella ysgolion blynyddol yn seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth, meintiol ac ansoddol.
- Ar ddiwedd pob hanner tymor ymgysylltu fel cyfaill beirniadol â threfniant Cydweithredol i werthuso'r dystiolaeth uniongyrchol sy'n dangos cynnydd effeithiol ac effaith y gweithgarwch gwella ysgolion sydd wedi'i gynnal a chyflwyno adroddiad ar hyn.
- Herio trefniant Cydweithredol yn gadarn, os nad yw'r dystiolaeth uniongyrchol yn dangos effaith fesuradwy.
- Darparu adroddiad effaith hanner tymor i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc. Bydd yr adroddiad hwn ar ffocws gwella ysgolion y trefniant Cydweithredol, gan nodi'n glir y cryfderau a meysydd ar gyfer datblygu.
- Yn flynyddol, mewn partneriaeth â phenaethiaid trefniant Cydweithredol, ysgrifennu adroddiad gwerthuso sy'n manylu ar effaith y ffocws gwella ysgolion ar gyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion a fydd wedyn yn cael ei rannu a'i drafod â

phob Corff Llywodraethu mewn trefniant Cydweithredol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc.
- Defnyddio eu gwybodaeth am drefniadau Cydweithredol effeithiol a llwyddiannus ac yna cyfeirio pob trefniant Cydweithredol i'r arfer cryf effeithiol hwn yn llorweddol ac yn fertigol yn yr awdurdod lleol.
- Mewn partneriaeth â threfniant Cydweithredol, nodi a chynorthwyo wrth froceru'r ymchwil a dysgu proffesiynol a fydd yn gwella ac yn cynorthwyo effaith y fenter gwella ysgolion a nodwyd.
- Darparu cyngor a chymryd rhan wrth recriwtio uwch arweinwyr ysgolion.
- Cymryd rhan mewn rheoli perfformiad penaethiaid yn unol ag arferion a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.
- Bod yn atebol am berfformiad personol drwy weithdrefnau rheoli perfformiad y cytunwyd arnynt.
- Hysbysu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc ar unwaith os bydd unrhyw heriau arweinyddiaeth yn yr ysgolion unigol yn y trefniant Cydweithredol.
- Gweithio fel rhan o dîm, i rannu atebion, creu syniadau a datblygu dulliau arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn gwella cysondeb ac ansawdd ym mhob agwedd ar waith y partner Gwella.
- Cyfrannu, lle y bo'n briodol, at ddarparu her a chymorth mewn trefniadau Cydweithredol heblaw am y rhai y mae'r partner gwella ynghlwm wrthynt.
- Cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu personol y cytunwyd arnynt ac felly cyfrannu at ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Partner Gwella Ysgolion

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Statws Athro Cymwysedig. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| | • Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol perthnasol a thystiolaeth o hyn. | Ydy | |
| | • Cymwysterau ychwanegol perthnasol. | | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad diweddar fel pennaeth ysgol cyfrwng Cymraeg gyda hanes amlwg o wella ysgol. Neu swydd uwch arweinyddiaeth mewn ysgol Cyfrwng Cymraeg neu fel aelod o dîm uwch arweinyddiaeth neu brofiad cyfwerth mewn sefydliad addysg gan gynnwys gwasanaeth gwella ysgolion. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| | • Profiad o drefniadau cydweithredol ystyrlon (dwfn a phwrpasol) rhwng ysgolion. | Ydy | |
| | • Profiad o ddynameg sefydliadol a phartneriaeth i feithrin datblygiad gweithio o ysgol i ysgol. | Ydy | |
| | • Yn ddeallus gyda data, gan gydnabod yr hyn y mae'r wybodaeth yn ei olygu ar gyfer yr her arweinyddiaeth a rheoli ym mhob ysgol. | Ydy | |
| | • Yn fedrus wrth ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o brofiad a mewnwelediad i ddeall sut y gall arweinyddiaeth a rheoli mewn ysgolion wella deilliannau. | Ydy | |
| | • Yn ymwybodol o flaenoriaethau cenedlaethol, awdurdod lleol ac ysgolion a'r hyn y mae'r rhain yn ei olygu i arwain a rheoli ysgolion ar bob lefel. | Ydy | |
| | • Profiad o ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth i arweinwyr ar bob lefel mewn ysgolion. Y gallu i wneud hynny heb | Ydy | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad parhad** | golli'r sefyllfa ar gyfer herio perfformiad a heb bylu'r llinellau atebolrwydd.<br>• Ymrwymiad parhaus i sicrhau'r deilliannau gorau posibl i blant a phobl ifanc a chydnabod yr angen i ymateb i anghenion dysgu grwpiau agored i niwed.<br>• Profiad o arolygu ysgolion.<br>• Profiad o weithio gydag ysgolion eraill i godi safonau. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Yn nodi ac yn gwneud y defnydd gorau o'i sgiliau ei hun a rhai'r tîm<br>• Yn rhannu ac yn dathlu pob llwyddiant ac yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau pobl eraill yn agored.<br>• Yn gallu cyflwyno negeseuon anodd mewn ffordd sensitif.<br>• Yn datblygu pobl ar gyfer y tymor uniongyrchol a'r hirdymor ac yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu parhaus.<br>• Yn meithrin perthnasoedd parhaol ac adeiladol.<br>• Yn gyson yn chwilio am gyfleoedd i wella darpariaeth gwasanaethau drwy weithio gydag eraill.<br>• Yn hyrwyddo ac yn dangos ethos o gydraddoldeb ac amrywiaeth.<br>• Yn cyfathrebu'n glir ac yn gryno ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Yn cyfathrebu'n gynnar i nodi risgiau posibl ymlaen llaw.<br>• Yn cyfrannu at amgylchedd lle mae cyfnewid syniadau'n agored a her briodol yn cael ei dderbyn a'i werthfawrogi.<br>• Yn ysgogi'r broses o gyflawni blaenoriaethau strategol sy'n seiliedig ar angen a nodwyd neu'n cyfrannu at hyn, gan gynnwys yr anghenion hynny'n sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Yn meddu ar wybodaeth glir am y cysylltiadau rhwng gwasanaethau gwahanol a'u cyfraniad posibl.<br>• Yn herio darpariaeth gwasanaethau i hyrwyddo gwella cynaliadwy. | | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Yn deall y defnydd o fesurau perfformiad.<br>• Yn defnyddio dull rhesymegol, trefnus a gwybodus o gynllunio | | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol Parhad** | • Yn canolbwyntio'n dynn ar amserlenni ac yn bodloni terfynau amser.<br>• Yn canolbwyntio ar dargedau ymestynnol y gellir eu cyflawni ac yn gallu gwneud penderfyniadau anodd.<br>• Yn meddu ar brofiad o weithredu polisïau a phrosesau effeithiol sy'n cael effaith ar godi safonau.<br>• Ymrwymiad i hyrwyddo cynhwysiant ym mhob cyd-destun.<br>• Yn codi'r ddealltwriaeth ar y cyd o wella safonau drwy rannu gwybodaeth â'r gymuned ehangach.<br>• Gallu teithio'n annibynnol o fewn ardal ddaearyddol, trwydded yrru.<br>• Gallu cyfathrebu'n fedrus yn Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. | <br><br><br><br><br><br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |